YSTADEGAU, DOGFENNU

# Unigrwydd (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Mae'r bwletin yn edrych ar agweddau unigrwydd o ran diffyg perthynas bersonol agos a diffyg cysylltiadau cymdeithasol ehangach ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Tachwedd 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Tachwedd 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif ganfyddiadau

Unigrwydd

Unigrwydd emosiynol a chymdeithasol

Y cyd-destun polisi

Gwybodaeth am ansawdd

Troednodiadau

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur lefelau unigrwydd yn y boblogaeth. Rhoddwyd chwe datganiad i bobl, yr oedd yn bosibl eu hateb gydag 'ydw/oes', 'nac ydw/nac oes' neu 'mwy neu lai'.[troednodyn 1]

Y chwe datganiad yw:

- 'Rwy'n teimlo gwacter cyffredinol'.
- 'Rwy'n gweld eisiau cael pobl o gwmpas'.
- 'Rwy'n aml yn teimlo fy mod wedi cael fy ngwrthod'.
- 'Rwy'n medru dibynnu ar lawer o bobl pan mae gen i broblemau'.
- 'Mae llawer o bobl y gallaf ymddiried ynddynt yn llwyr'.
- 'Rwy'n teimlo'n agos at ddigon o bobl'.

Cyfunwyd yr ymatebion i gynhyrchu graddfa o 0 i 6, gyda 0 y lleiaf unig a 6 y mwyaf unig. At ddibenion adrodd, rydym yn ystyried bod pobl sydd â sgôr rhwng 4 a 6 yn unig.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r adran o'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd dros y ffôn yn ystod 2022 i 23. Y canlyniadau hyn yw'r rhai y gellir eu cymharu orau â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol, 2012 i 2022. Nid yw mor hawdd cymharu'r canlyniadau ar gyfer 2019 i 2020 a blynyddoedd cyn hynny â'r canlyniadau ar gyfer blynyddoedd mwy diweddar oherwydd y newid o gyfweliadau wyneb yn wyneb i rai dros y ffôn. Mae canlyniadau pellach o bob blwyddyn ar gael yn y **dangosydd canlyniadau**.

# Prif ganfyddiadau

- Yn 2022 i 2023, roedd 13% o bobl yn unig, sy'n gyson â chanlyniadau 2021 i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2022.

- Roedd pobl a oedd yn byw mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o fod yn unig na phobl nad oeddent yn byw mewn amddifadedd.
- Roedd unigolion â chyflwr iechyd meddwl neu mewn gwaeth iechyd cyffredinol hefyd yn fwy tebygol o fod yn unig.
- Roedd unigrwydd hefyd yn dangos perthynas gref â llesiant. Nododd pobl unig foddhad llawer is â bywyd na'r rhai nad oeddent yn unig.
- Mae mwy o bobl yn gymdeithasol unig (er enghraifft heb lawer o bobl i ddibynnu arnynt am help) nag yn emosiynol unig (er enghraifft yn gweld eisiau cael pobl o gwmpas).

# Unigrwydd

Yn 2022 i 2023, roedd 13% o bobl yn unig. Mae hyn yr un fath ag yn 2021 i 2022 a 2020 i 2021. Yn 2019 i 2020, 15% ydoedd.


Yn 2022 i 2023, roedd 48% weithiau'n unig (sgôr o 1 i 3) ac nid oedd 39% yn unig (sgôr o 0).

Cynhaliwyd dadansoddiad manwl i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng unigrwydd ac amrywiaeth o ffactorau demograffig, cymdeithasol ac iechyd. Wrth reoli cysylltiad â ffactorau eraill, roedd cysylltiad annibynnol rhwng y canlynol a bod yn unig:

- Ethnigrwydd: roedd pobl a nododd eu bod yn 'Wyn – Prydeinig' yn llai tebygol o fod yn unig na'r rhai a nododd eu bod yn Ddu, Asiaidd neu'n rhan o grŵp ethnig lleiafrifol, fel y dangosir yn Ffigur 1.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Unigrwydd yn ôl ethnigrwydd




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart golofn wedi'i stacio sy'n dangos unigrwydd cyffredinol yn ôl ethnigrwydd. Pobl a nododd eu bod yn 'Wyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon)' oedd â'r ganran uchaf o bobl nad oeddent yn teimlo'n unig o gwbl. Roedd pobl o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o nodi pedwar neu fwy o ymddygiadau unig na phobl o gefndiroedd ethnig eraill.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Iechyd cyffredinol

Roedd pobl a oedd yn ystyried eu hunain mewn iechyd gwael yn fwy tebygol o fod yn unig na'r rhai mewn iechyd da. Roedd 20% mewn iechyd teg a 37% mewn iechyd gwael neu wael iawn yn unig, o'i gymharu â 7% o'r rhai mewn iechyd da neu iechyd da iawn.

## Salwch meddwl

Roedd 39% o'r rhai â salwch meddwl (gan gynnwys gorbryder ac iselder) yn teimlo'n unig, tra mai dim ond 9% o'r rhai heb salwch o'r fath oedd yn teimlo'n unig.

## Cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol

Roedd 39% o'r bobl a oedd wedi defnyddio gwasanaethau cymorth a gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf yn teimlo'n unig, tra mai dim ond 11% o'r rhai nad oeddent wedi defnyddio gwasanaethau o'r fath oedd yn teimlo'n unig.

## Amddifadedd materol

Roedd amddifadedd materol yn ffactor arwyddocaol o ran yr unigrwydd a gofnodwyd. Roedd 34% o'r bobl mewn amddifadedd materol yn teimlo'n unig, o'i gymharu â 9% o'r rhai nad oeddent mewn amddifadedd materol.


## Y math o aelwyd

Aelwydydd a oedd yn cynnwys oedolion sengl, nad oeddent yn bensiynwyr oedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fwyaf tebygol o adrodd am unigrwydd, fel y dangosir yn Ffigur 2.

## Ffigur 2: Unigrwydd yn ôl y math o aelwyd




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart far sy'n dangos unigrwydd cyffredinol yn ôl y math o aelwyd. Pobl a oedd mewn aelwydydd sengl (nad oeddent yn bensiynwyr) oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo'n unig. Roedd pensiynwyr sengl ac aelwydydd a oedd yn cynnwys nifer o oedolion neu bensiynwyr yn llai tebygol o deimlo'n unig na phobl a oedd yn byw ar eu pen eu hunain.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 2023

### Boddhad uchel iawn â bywyd

Roedd pobl a roddodd sgôr o 9 allan o 10 neu uwch ar gyfer eu boddhad â bywyd yn llai tebygol o adrodd am unigrwydd, fel y dangosir yn Ffigur 3.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Cytuno'n gryf bod pethau mewn bywyd yn werth chweil

Roedd pobl a roddodd sgôr o 9 allan o 10 neu uwch ar gyfer y datganiad 'cytuno'n gryf bod pethau mewn bywyd yn werth chweil' yn llai tebygol o adrodd am unigrwydd. Dangosir hyn hefyd yn Ffigur 3.

## Ffigur 3: Unigrwydd yn ôl mesurau llesiant




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart golofn sy'n dangos unigrwydd cyffredinol pobl a nododd foddhad uchel iawn â bywyd ac a gytunodd yn gryf fod pethau mewn bywyd yn werth chweil. Yn y ddau achos, nid yw dros hanner yr ymatebwyr yn dangos unrhyw ddangosyddion o unigrwydd, a nodwyd bod llai na 10% o'r ymatebwyr hyn yn unig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 2023


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ni chanfuwyd bod oedran, salwch cyfyngus hirdymor, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol na defnydd o'r rhyngrwyd yn gysylltiedig ag unigrwydd.

## Unigrwydd emosiynol a chymdeithasol

Mae dau ddimensiwn i unigrwydd: unigrwydd emosiynol a chymdeithasol. O'r chwe datganiad a restrir uchod, mae'r tri datganiad cyntaf (teimlo gwacter cyffredinol, gweld eisiau cael pobl o gwmpas, yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu gwrthod) yn ddangosyddion o unigrwydd emosiynol ac mae'r tri datganiad olaf (heb lawer o bobl i ddibynnu arnynt, heb lawer o bobl y gallant ymddiried ynddynt yn llwyr, a dim digon o gysylltiadau agos) yn ddangosyddion o unigrwydd cymdeithasol.

Gan ddefnyddio graddfa o 0 i 3, gan roi sgôr o 2 i 3 fel unig a 3 fel unig iawn, canfuwyd bod unigrwydd cymdeithasol yn fwy cyffredin nag unigrwydd emosiynol. Mae 23% o bobl yn gymdeithasol unig, gyda 11% yn gymdeithasol unig iawn, o'i gymharu â 18% yn emosiynol unig, a 7% yn emosiynol unig iawn.

Gwnaethom ddefnyddio'r un dull dadansoddi ag uchod (h.y. rheoli ar gyfer ystod o ffactorau ar yr un pryd) i edrych ar gysylltiadau rhwng gwahanol ffactorau ac unigrwydd emosiynol a chymdeithasol. Ar y cyfan, canfuwyd bod ffactorau tebyg yn bwysig i'r ddau fath hyn o unigrwydd ag ar gyfer unigrwydd cyffredinol.

Canfuwyd bod yr holl ffactorau a restrwyd yn flaenorol yn gysylltiedig ag unigrwydd emosiynol yn yr un modd ag ar gyfer unigrwydd cyffredinol. Yn ogystal, canfuwyd bod rhywedd, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn ystod y pedair wythnos diwethaf, deiliadaeth a statws priodasol i gyd yn gysylltiedig ag unigrwydd emosiynol.

Roedd dynion yn llai tebygol o deimlo'n emosiynol unig na menywod, gyda 16% o ddynion yn teimlo'n emosiynol unig o'i gymharu â 21% o fenywod. Canfuwyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.


bod pobl a gymerodd ran mewn chwaraeon yn ddiweddar yn llai emosiynol unig, gyda 11% o'r rhai a gymerodd ran yn teimlo'n emosiynol unig o'i gymharu â 20% o'r rhai na gymerodd ran. Roedd y rhai a oedd yn berchen ar eu cartref yn llai tebygol o deimlo'n emosiynol unig na'r rhai a oedd yn byw mewn llety rhent preifat. Roedd 14% o'r rhai a oedd yn byw mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr yn teimlo'n emosiynol unig o'i gymharu â 25% o rentwyr preifat. Roedd y ddau grŵp yn llai tebygol o deimlo'n emosiynol unig na'r rhai a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol, fodd bynnag, lle'r oedd 35% o bobl yn teimlo'n emosiynol unig. Dangosir effeithiau statws priodasol ar unigrwydd yn Ffigur 4.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 4: Unigrwydd emosiynol a chymdeithasol yn ôl statws priodasol




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart far sy'n dangos unigrwydd emosiynol a chymdeithasol yn ôl statws priodasol. Pobl a oedd yn sengl, wedi ysgaru neu wedi gwahanu oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo'n gymdeithasol unig. Pobl a oedd wedi gwahanu neu a oedd yn weddw neu'n bartner sifil goroesol oedd y rhai mwyaf tebygol o deimlo'n emosiynol unig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022 i 2023

Canfuwyd bod gan unigrwydd cymdeithasol lai o ffactorau yn gysylltiedig ag ef

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

nag oedd gan unigrwydd emosiynol. Canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r ffactorau y canfuwyd eu bod yn gysylltiedig ag unigrwydd cyffredinol hefyd yn gysylltiedig ag unigrwydd cymdeithasol yn yr un ffyrdd ag a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gysylltiadau annibynnol rhwng unigrwydd cymdeithasol a defnydd o ofal cymdeithasol, na'r math o aelwyd. Yn ogystal, er y nodwyd bod statws priodasol a chymryd rhan mewn chwaraeon hefyd yn gysylltiedig ag unigrwydd cymdeithasol mewn ffyrdd tebyg i unigrwydd emosiynol, ni nodwyd deiliadaeth fel ffactor sy'n gysylltiedig ag unigrwydd cymdeithasol. Nodwyd rhywedd fel ffactor sy'n gysylltiedig ag unigrwydd cymdeithasol, ond ni ellid dod o hyd i unrhyw wahaniaeth arwyddocaol o fewn y data.

Ni chanfuwyd bod oedran, salwch cyfyngus hirdymor, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol na defnydd o'r rhyngrwyd yn gysylltiedig ag unigrwydd emosiynol na chymdeithasol.

# Y cyd-destun polisi

Unigrwydd yw un o'r 50 dangosydd cenedlaethol a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae'r Ddeddf hon wedi'i chynllunio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hefyd yn rhan o **Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd Cymru**, sy'n ystyried y ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol amrywiol sy'n effeithio ar iechyd yr unigolyn, y gymuned a chymdeithas. Mae unigrwydd yn ddangosydd ar gyfer "amodau byw", gan gefnogi datblygiad cymunedau cydlynol. Mae **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol**, sy'n canolbwyntio ar roddwyr gofal a derbynwyr gofal, hefyd yn defnyddio unigrwydd fel mesurydd ar gyfer llesiant yr unigolion hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwybodaeth am ansawdd

Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru** yn arolwg ffôn, hapsampl, graddfa fawr, parhaus sy'n cwmpasu pobl ledled Cymru. Dewisir cyfeiriadau ar hap, ac anfonir gwahoddiadau drwy'r post, yn gofyn am ddarparu rhif ffôn ar gyfer y cyfeiriad. Gellir darparu'r rhif ffôn drwy borth ar-lein, llinell ymholiadau ffôn neu'n uniongyrchol i rif ffôn symudol y cyfwelydd ar gyfer yr achos hwnnw. Os na ddarperir rhif ffôn, gall cyfwelydd alw yn y cyfeiriad a gofyn am rif ffôn.

Mae siartiau manwl a thablau canlyniadau ar gael yn ein **dangosydd canlyniadau** rhyngweithiol. I gael gwybodaeth ynglŷn â chasglu'r data a'r fethodoleg, gweler ein tudalennau **adroddiad ansawdd**, **adroddiad technegol** ac **adroddiad atchweliad**.

Mae traws-ddadansoddi yn awgrymu y gallai ffactorau amrywiol fod yn gysylltiedig â'r ymatebion a roddwyd i bob cwestiwn a ofynnwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol. Er hynny, mae'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd (er enghraifft, gall pobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor fod yn hŷn hefyd). Er mwyn deall effaith pob ffactor unigol yn well, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol i wahanu effaith unigol pob ffactor. Bydd y dulliau hyn yn caniatáu inni edrych ar effaith un ffactor gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson – "sef rheoli ar gyfer ffactorau eraill". Nodwyd bod pob dadansoddiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ffactor unigol.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai unrhyw ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau yn cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2020 yn dilyn asesiad cydymffurfio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (**llythyr cadarnhad**). Y tro diwethaf i'r ystadegau hyn gael eu hasesu’n llawn (**adroddiad llawn**) yn erbyn y Cod Ymarfer oedd yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- darparu dadansoddiadau manylach yn y **dangosydd canlyniadau** a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws blynyddoedd
- diweddaru pynciau'r arolwg yn flynyddol i sicrhau ein bod yn parhau i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddiwallu anghenion polisi sy'n newid
- gwneud dadansoddiad atchweliad yn rhan safonol o'n hallbynnau i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau o ddiddordeb

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Diben y rhain yw sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n rhaid eu defnyddio i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 50 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer **15 o'r 50 dangosydd.**

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd gynnig naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol, a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio yn eu hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

# Troednodiadau

[1] Mae hon yn raddfa safonol a ddefnyddir i fesur unigrwydd, graddfa De Jong Gierveld.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Tîm arolygon
E-bost: **arolygon@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 41/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/unigrwydd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.